# 26. Rheoli Safleoedd Ysgolion a’r Defnydd Cymunedol Ohonynt

Mae’r bennod hon yn esbonio:

- swyddogaeth corff llywodraethu wrth reoli safle’r ysgol;
- yr amgylchiadau y gall ALlau ddweud wrth gorff llywodraethu sut y dylid defnyddio safleoedd;
- Cytundebau i Drosglwyddo Rheolaeth (TofCAs);
- sut dylai corff llywodraethu gydymffurfio â’r safonau gofynnol ar gyfer safle’r ysgol; a
- gofynion anghenion addysgol arbennig (AAA) a’r ddeddfwriaeth gwahaniaethu ar sail anabledd.

## Rheoli Safleoedd

1. Mewn ysgolion a gynhelir, y corff llywodraethu sy’n rheoli’r defnydd o safleoedd yn ystod a thu allan i oriau ysgol. Efallai bod rhai eithriadau i hyn mewn ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir, ysgolion gwirfoddol a reolir ac ysgolion sefydledig neu arbennig sefydledig os yw’r ddogfen ymddiriedolaeth yn dweud mai rhywun arall sy’n gyfrifol am reoli’r defnydd o’r safle. Hefyd, mae’n rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir ddilyn unrhyw reolau cyffredinol (cyfarwyddiadau) sy’n cael eu gosod gan ALl (gweler paragraff 9, isod). Bydd rhagor o eithriadau ym mhob ysgol â Chytundeb i Drosglwyddo Rheolaeth (TofCA) (gweler paragraffau 25-30). Rhaid i gyrff llywodraethu ystyried anghenion y gymuned leol wrth benderfynu ar ddefnydd y tu allan i oriau. (gweler Rheoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) 2008 fel y’u diwygiwyd gan Reoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2008.

2. Mae’r rhan fwyaf o ysgolion yn cynnal gwasanaethau ysgol a chymunedol ehangach i ryw raddau, fel clybiau ar ôl ysgol, addysg i oedolion, gofal plant y tu allan i oriau ysgol, clybiau chwaraeon, clybiau ieuenctid ac ati. Mae rhai ysgolion yn cynnig cyfleusterau i sefydliadau gwirfoddol.

3. Mae gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn cael eu cynnal y tu allan i’r diwrnod ysgol. Mae clybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol yn darparu gofal plant diogel, fforddiadwy a hygyrch cyn neu ar ôl y diwrnod ysgol, yn ystod gwyliau’r ysgol yn aml ac weithiau ar benwythnosau, ac wrth wraidd Strategaeth Gofal Plant Cymru (LIC, 2005). Cynhelir clybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol bob dydd fel arfer, ac maent yn helpu’r rhieni i fynd i weithio neu gael hyfforddiant. Gall plant a phobl ifanc fynychu’r clybiau hyn am resymau cymdeithasol hefyd, neu er mwyn rhoi gofal seibiant i rieni a gofalwyr. Fe’u cynhelir ar safle’r ysgol yn aml, ond nid bob amser. Gall darpariaethau fod mewn canolfannau cymunedol lleol hefyd, neu mewn lleoliadau addas eraill yn y gymuned.

4. Gellir darparu clybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol i blant a phobl ifanc 3-14 oed (neu 16 oed yn achos plant ag anghenion penodol). Mae darpariaeth i blant o dan 8 oed sy'n para 2 awr neu fwy yn cael ei rheoleiddio, a rhaid cofrestru hynny gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru. Nid oes angen cofrestru clybiau gofal plant y tu allan i oriau ysgol i blant a phobl ifanc dros 8 oed gan nad ydynt yn destun rheoliad. Fel arfer, codir tâl am glwb gofal plant y tu allan i oriau ysgol, ond mae cymhorthdal ar gael weithiau, yn dibynnu ar y math o ddarpariaeth, lleoliad a chyllid ac ati. Gall rhieni/gofalwyr plant sy'n mynychu darpariaeth gofrestredig hawlio elfen gofal plant y Credyd Treth i Deuluoedd sy'n Gweithio i'w helpu i dalu costau gofal.

5. Ni chaiff cyrff llywodraethu ddefnyddio cyfran o'u cyllideb ddirprwyedig at unrhyw beth ar wahân i ddibenion yr ysgol. Er nad oes ddiffiniad statudol o'r term (ac felly mater i'r llysoedd yw pennu'r ystyr yn y pen draw) mae Llywodraeth Cymru o'r farn y gellir diffinio "dibenion yr ysgol" fel yr holl weithgareddau sy'n creu manteision addysgol i ddisgyblion yr ysgol, neu ddisgyblion sydd wedi cofrestru mewn ysgolion a gynhelir. Gall cyrff llywodraethu godi mwy o dâl ar rai o sefydliadau er mwyn defnyddio'r arian ychwanegol i roi cymhorthdal i ddefnyddwyr eraill. Yn gyffredinol, rhaid i unrhyw ddefnydd cymunedol dalu ei gostau ei hun. Mae unrhyw elw a wnaed o wneud defnydd cymunedol o'r ysgol yn perthyn i'r ALl sy'n berchen ar y safle lle gwnaed elw, ond gall ALlau ganiatáu i ysgolion gadw'r incwm hwnnw. Anogir ALlau i wneud darpariaethau ar gyfer hyn yn eu cynlluniau Rheoli Ysgolion yn Lleol (gweler Pennod 27, Ysgolion Bro).

6. Er hynny, mae gan ysgolion ran bwysig a chanolog yn y gymuned. Mae ysgolion nid yn unig yn darparu addysg i blant ac yn creu ysbryd cymunedol ymhlith rhieni, ond hefyd yn cynnig y cyfle ac yn aml y cyfleusterau i ddenu'r gymuned gyfan. Mae ysgol fro yn darparu amrywiaeth o wasanaethau a gweithgareddau, yn aml y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, er mwyn helpu i ddiwallu anghenion ei disgyblion ei hun, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Am wybodaeth am ysgolion bro, gweler y bennod ddilynol.

7. Mae llawer o ysgolion yn cynnwys cyfleusterau chwaraeon a chyfleusterau eraill y gall y gymuned eu defnyddio am bris rhesymol – ac am rywfaint o elw hyd yn oed. Gall cyrff llywodraethu ac ALlau wneud cais am arian gan Gyngor Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, gan gynnwys y Loteri Genedlaethol, ar gyfer cyfleusterau chwaraeon a chelfyddydol sydd ar gael i'r gymuned gyfan.

8. Mae ALl yn gallu rhoi cyfarwyddiadau i gyrff llywodraethu ysgolion cymunedol, ysgolion arbennig cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir ynglŷn â sut y dylid defnyddio safle'r ysgol. Er nad yw'r cyfarwyddiadau hyn yn cymryd lle cyfrifoldebau'r corff llywodraethu, gallant gynnwys materion fel:

- cymryd archebion rheolaidd am wasanaethau ieuenctid neu addysg i oedolion;
- diogelwch a gwaith gofalwyr;

- pa gostau ddylai fod yn rhan o'r pris;
- defnyddio system archebu ganolog;
- sicrhau nad yw'r defnydd cymunedol o gyfleusterau'r ysgol yn effeithio ar y cyfleusterau sy'n cael eu defnyddio o ddydd i ddydd gan ddisgyblion, er enghraifft gofalu nad yw'r caeau chwaraeon awyr agored yn cael eu gorddefnyddio.

9. Gall ALl roi cyfarwyddiadau i gorff llywodraethu ysgol wirfoddol a
VA gynorthwyir ynglŷn â sut dylid defnyddio'r safle ar ddyddiau'r wythnos, am hyd at dridiau'r wythnos. Gall ALl wneud hyn os yw'n dymuno darparu lle ar gyfer addysg neu les pobl ifanc, os yw'r ALl yn fodlon nad oes lleoedd eraill, addas, ar gael. Wrth roi cyfarwyddiadau o'r fath, gall ALl gyfarwyddo'r corff llywodraethu i gynnig lle am ddim.

10. Dylai cyfarwyddiadau'r ALl fod yn rhesymol ac ni ddylent amharu gormod ar reolaeth y corff llywodraethu. Er enghraifft, ni ddylai'r ALl fynnu bod safle ar gael os byddai hyn yn gorfodi'r corff llywodraethu i dorri cytundebau archebu.

## Safonau ar gyfer Safleoedd Ysgolion

11. Dylai cyrff llywodraethu nodi bod Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgolion) 1999 yn cynnwys y safonau gofynnol ar gyfer safleoedd yr holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr. Maent yn cwmpasu cyfleusterau ysgolion, gofynion strwythurol ac amgylcheddol, agweddau ar iechyd a diogelwch, a darparu caeau chwaraeon i dimau.

## Sicrhau bod Safleoedd yn Addas i Ddisgyblion Anabl a Rhai ag Anghenion Addysgol Ychwanegol (ALN), ac Osgoi Gwahaniaethu

12. Mae Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 (DDA) yn berthnasol i ysgolion ers 1996, yn achos Rhan 2, Cyflogaeth, a Rhan 3, Darparu Nwyddau a Gwasanaethau (a oedd yn cynnwys eithriadau i addysg). Mae Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 yn diwygio'r DDA, yn codi'r eithriad ar gyfer addysg yn Rhan 3, ac yn darparu Rhan 4, Addysg, gan gynnwys ysgolion o fis Medi 2003. Roedd DDA 1995, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005, yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon i unrhyw sefydliad neu unigolyn sy'n darparu gwasanaeth, wahaniaethu yn erbyn pobl anabl.

13. Cyflwynwyd dyletswyddau newydd ar ALlau ac ysgolion yn ymwneud â disgyblion a darpar ddisgyblion anabl o dan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001 ("y Ddeddf"). Mae gan rywun anabledd os oes ganddo ef neu hi unrhyw nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar ei allu i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Y ddau faes gwahaniaethu yw peidio â thrin disgyblion anabl yn llai ffafriol a chymryd camau rhesymol er mwyn osgoi rhoi disgyblion anabl o dan anfantais sylweddol.

14. Mae angen i ALlau ac ysgolion baratoi strategaethau hygyrchedd a chynlluniau hygyrchedd yr un ar gyfer gwneud ysgolion yn fwy hygyrch i ddisgyblion anabl, dros amser. Dyletswydd gynllunio yw hon. Gweler Rheoliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Cyfnodau Rhagnodedig ar gyfer Strategaethau a Chynlluniau Hygyrchedd ar gyfer Ysgolion) (Cymru) 2003 OS Rhif 2531 (W246)

15. Amcanion y strategaeth neu'r cynllun hygyrchedd yw:

- cynyddu i ba raddau y mae disgyblion anabl yn gallu cymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol;
- gwella amgylchedd ffisegol yr ysgolion i gynyddu i ba raddau y mae disgyblion anabl yn gallu manteisio ar gyfleoedd addysg a gwasanaethau cysylltiedig;
- gwella'r broses o roi gwybodaeth i ddisgyblion anabl, sef gwybodaeth ysgrifenedig i ddisgyblion nad ydynt yn anabl (dylid gwneud hyn mewn cyfnod o amser rhesymol ac mewn fformatau sy'n ystyried hoff ddulliau cyfathrebu'r disgyblion neu'r rhieni).

16. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth i arolygiadau Estyn o ALlau ac ysgolion gyflawni eu dyletswyddau i baratoi, diwygio, adolygu a gweithredu eu strategaethau neu eu cynlluniau, a chyhoeddi cynllun hygyrchedd. Mae Estyn yn monitro'r ddyletswydd gynllunio trwy arolygu ALlau ac ysgolion. Gall Gweinidogion Cymru ymyrryd os nad yw ALl neu ysgol yn cydymffurfio â'r ddyletswydd gynllunio a gall gyfarwyddo ALl neu ysgol i wneud hynny.

17. Daeth y ddyletswydd gynllunio i rym ar 1 Medi 2003. Roedd gofyn i ALlau ac ysgolion sicrhau bod strategaethau a chynlluniau strategol ysgrifenedig ar waith erbyn 1 Ebrill 2004. Roedd y Rheoliadau hyn yn sicrhau bod strategaethau a chynlluniau yn para am gyfnod cychwynnol o 3 blynedd, ac yna cawsant eu hadolygu a'u newid fel bo'r angen. Dylid dilyn yr un broses ar ddiwedd pob cylch tair blynedd.

18. Mae Rhan 3 o'r Ddeddf DDA (Nwyddau, cyfleusterau a gwasanaethau) yn berthnasol i gorff llywodraethu sydd, fel darparwr gwasanaethau, yn sicrhau bod cyfleusterau chwaraeon yr ysgol, neuadd yr ysgol neu unrhyw safle ysgol arall, ar gael i aelodau'r cyhoedd neu ran o'r cyhoedd. Ni ddylai darparwyr gwasanaethau wrthod darparu gwasanaeth i bobl anabl, darparu gwasanaeth o safon is, na chynnig gwasanaeth ar delerau llai ffafriol i bobl anabl.

19. Mae rhywun yn gwahaniaethu yn erbyn unigolyn anabl os yw, am reswm sy'n gysylltiedig ag anabledd y person anabl, yn ei drin ef neu hi yn llai ffafriol nag y mae neu y byddai'n trin eraill nad yw'r rheswm hwnnw'n berthnasol iddo, ac na allai gyfiawnhau'r driniaeth honno. Bydd rhywun hefyd yn gwahaniaethu yn erbyn unigolyn anabl os nad yw'n cydymffurfio ag adran 28C (disgyblion sydd dan anfantais sylweddol). Ni ellir cyfiawnhau rhoi triniaeth lai ffafriol am reswm yn ymwneud ag anabledd oni bai ei fod, ym

marn y landlord neu'r rheolwr, yn bodloni un neu fwy o "amodau" a'i bod yn rhesymol iddo ef neu hi fynegi'r farn honno, o gofio holl amgylchiadau'r achos.

20. Mae adran 28b o Ran 4 o'r Ddeddf DDA (fel y mewnosodwyd gan Ddeddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001) yn trafod os gellir cyfiawnhau gwahaniaethu mewn lleoliad addysg i ddisgyblion. Am fwy o wybodaeth am wahaniaethu ar sail anabledd, gweler Pennod 9, Cyfle Cyfartal a Llywodraethwyr Ysgol.

21. Ers 1 Hydref 1999, mae darparwyr gwasanaethau wedi gorfod gwneud "addasiadau rhesymol" i bobl anabl, fel darparu cymorth ychwanegol neu gyflwyno newidiadau i'r modd y darparant eu gwasanaethau.

22. Ers 1 Hydref 2004, mae darparwyr gwasanaethau wedi gorfod gwneud addasiadau rhesymol eraill i nodweddion ffisegol eu safleoedd er mwyn goresgyn y rhwystrau ffisegol sy'n ei gwneud hi'n amhosibl neu'n afresymol o anodd i rywun anabl ddefnyddio eu gwasanaethau. Er hynny, mae'r DDA yn cydnabod bod angen cael cydbwysedd rhwng hawliau pobl anabl a buddiannau darparwyr gwasanaethau. Felly, dim ond addasiadau rhesymol y disgwylir i ddarparwyr gwasanaethau eu gwneud o dan yr holl amgylchiadau.

23. Mae'r ffactorau y gellir eu hystyried wrth benderfynu beth sy'n rhesymol yn cynnwys costau addasiadau, pa mor ymarferol yw hynny a faint o adnoddau ariannol ac adnoddau eraill sydd gan y darparwr gwasanaethau.

24. Fel darparwyr gwasanaethau, mae cyrff llywodraethu hefyd yn ddarostyngedig i Adran 20 o Ddeddf Cysylltiadau Hiliol 1976 ac Adran 29 o Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw 1975.

## Cytundeb i Drosglwyddo Rheolaeth (TofCA)

25. Gall cyrff llywodraethu unrhyw ysgol gymunedol, ysgol arbennig gymunedol neu ysgol feithrin a gynhelir wneud cytundeb i drosglwyddo rheolaeth (TofCA) gydag unrhyw gorff neu unigolyn os mai'r nod (neu un o'r nodau) o wneud hynny yw hyrwyddo defnydd cymunedol o holl safle'r ysgol, neu ran ohono.

26. Bydd y corff arall, a elwir yn gorff sy'n rheoli, yn parhau i redeg a defnyddio'r safle yn ystod y cyfnodau a nodir yn y cytundeb. Trwy drosglwyddo rheolaeth y safle i grwpiau cymunedol lleol, cymdeithasau chwaraeon a darparwyr gwasanaethau, bydd eraill yn gallu defnyddio cyfleusterau'r ysgol heb fod angen amser rheoli na gweinyddol gan staff yr ysgol.

27. Ni chaiff corff llywodraethu ymrwymo i gytundeb i drosglwyddo rheolaeth sy'n gwneud neu'n cynnwys darpariaeth i ddefnyddio pob rhan neu unrhyw ran o safle'r ysgol yn ystod oriau ysgol, heb gael caniatâd yr ALl yn gyntaf.

28. Mae cynnwys Cytundeb i Drosglwyddo Rheolaeth wedi'i amlinellu yn Rheoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) 2008, Paragraffau 4 a 5.

F FS 29. Os oes gan ysgol sefydledig neu ysgol arbennig sefydledig ddogfen ymddiriedolaeth sy'n dweud bod gan unrhyw un ar wahân i'r corff llywodraethu yr hawl i reoli'r broses o redeg a defnyddio safle'r ysgol i ba raddau bynnag, yna mae'n rhaid i'r Cytundeb i Drosglwyddo Rheolaeth gyfeirio at yr unigolyn hwnnw.

VC V 30. Gall corff llywodraethu ysgol wirfoddol ymrwymo i gytundeb cyn belled ag y bydd unrhyw ddefnydd a wneir o'r safle yn cydymffurfio ag unrhyw ofynion, cyfyngiadau neu waharddiadau sydd yn nogfen ymddiriedolaeth yr ysgol.

# Y Gyfraith

Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998: Atodlen 13
Rheoliadau Addysg (Mangreoedd Ysgolion) 1999
Rheoliadau Ysgolion a Gynhelir (Cytundebau Partneriaeth) (Cymru) 2007
Rheoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) 2008
Rheoliadau Rheoli Mangreoedd Ysgol (Cymru) (Diwygio) 2008).
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995: Rhan 3:
Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 2005
Rheoliadau Gwahaniaethu ar sail Anabledd (Cyfnodau Rhagnodedig ar gyfer Strategaethau a Chynlluniau Hygyrchedd ar gyfer Ysgolion) (Cymru) 2003 OS Rhif 2531 (W246)
Deddf Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd 2001

## Canllawiau

Ysgolion Bro – Cylchythyr 34/2003 Cynulliad Cenedlaethol Cymru; a Canllawiau ar gyfer grant Ysgolion Bro Llywodraeth Cynulliad Cymru – Cylchlythyr 31/05 Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Comisiwn Hawliau Anabledd: Cod Ymarfer ar gyfer Ysgolion